**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Offerynnau statudol gydag adroddiadau clir**
**22 Medi 2014**

**CLA443 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffisiotherapyddion-ragnodwyr, Podiatryddion-ragnodwyr neu Giropodyddion-ragnodwyr Annibynnol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014**

**Gweithdrefn:** Negyddol

Caniateir rhagnodi atodol ac annibynnol yn rhinwedd deddfwriaeth meddyginiaethau y DU. Mae Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 bellach yn caniatáu i ffisiotherapydd-ragnodydd annibynnol a phodiatrydd-ragnodydd neu giropodydd-ragnodydd annibynnol roi presgripsiynau. Caiff y gweinyddiaethau datganoledig weithredu hyn yn ôl eu dymuniad.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio:-

- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013;
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004; a
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2007;

drwy estyn y diffiniad o ragnodydd drwy fewnosod gategorïau newydd o ragnodydd annibynnol, sef ffisiotherapydd-ragnodydd annibynnol; a phodiatrydd-ragnodydd neu giropodydd-ragnodydd annibynnol.

Mae Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 yn cael eu diwygio i estyn yr esemptiad i'r gofyniad i godi tâl am fagiau siopa untro, a ddefnyddir yn unig i ddal cynnyrch meddyginiaethol neu gyfarpar rhestredig a ddarperir yn unol â phresgripsiwn a ddyroddir gan ragnodwyr penodol, i'r rhai a ddyroddir gan ffisiotherapydd-ragnodydd annibynnol; a phodiatrydd-ragnodydd neu giropodydd-ragnodydd annibynnol.

**CLA445 - Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) 2014**

**Gweithdrefn**: Negyddol

Mae adran 2 yn Rhan 2 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 yn darparu bod Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i barhau i fodoli ond y bydd yn newid ei enw i Gyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor"). Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â'r Cyngor. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag aelodaeth y Cyngor a phenodi'r prif swyddog.

**CLA447 - Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Dosbarthiad Rhanbarthau Talu Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2014**

**Gweithdrefn**: Negyddol

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniadau o ranbarthau talu 'rhostir' ac 'ardal dan anfantais difrifol' yng Nghymru. Maent hefyd yn ehangu'r criterion ar gyfer apelio yn erbyn dosbarthiad tir at ddibenion y Cynllun Taliad Sylfaenol.